OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2369

# Cynllun Cychod Pysgota (Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2010

## RHAN 1

Rhagarweiniol

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Cynllun hwn—

ystyr “cais” (“*application*”) yw cais am grant o dan y Cynllun hwn ac mae “ceisydd” (“*applicant*”) i'w ddehongli'n unol â hynny;

ystyr “cwch pysgota Cymreig cymwys” (“*eligible Welsh fishing boat*”) yw cwch pysgota—

(a) sydd wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran 2 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**1**);

(b) sydd â'i borthladd gweinyddu yng Nghymru ar ddyddiad gwneud y cais am grant; ac

(c) sy'n mesur 15 o fetrau neu fwy o hyd yn gyfan gwbl;

ystyr “cyflenwr a gymeradwywyd” (“*approved supplier*”) yw cyflenwr a bennir mewn rhestr a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 3(1) mewn cysylltiad â'r feddalwedd a gymeradwywyd;

mae i “Cymru” yr ystyr a roddir i “Wales” yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**);

ystyr “data gweithgareddau pysgota” (“*fishing activities data*”) yw data'r llyfr log, data'r datganiad trawslwytho a data'r datganiad glanio y mae'n ofynnol o dan y Rheoliad UE ei gofnodi a'i ddarlledu drwy ddull electronig;

ystyr “y dyddiad cau” (“*the closing date*”) yw'r dyddiad hwnnw y dichon Gweinidogion Cymru ei bennu a'i gyhoeddi o bryd i'w gilydd fel y dyddiad y mae'n rhaid cyflwyno cais am grant arno neu o'i flaen;

ystyr “grant” (“*grant*”) yw grant o dan y Cynllun hwn;

ystyr “meddalwedd a gymeradwywyd” (“*approved software*”) yw meddalwedd a bennir mewn rhestr a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 3(1);

ystyr “porthladd gweinyddu” (“*port of administration*”) yw'r porthladd y dyroddir ohono'r drwydded a roddir mewn cysylltiad â chwch pysgota o dan adran 4 o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**3**); ac

ystyr “y Rheoliad UE” (“*the EU Regulation*”) yw—

(a) tan 31 Rhagfyr 2010, y darpariaethau sy'n ymwneud â chofnodi a darlledu data gweithgareddau pysgota a osodir yn—

(**1**) 1995 p. 21.
(**2**) 2006 p. 32.
(**3**) 1967 p. 84.

(i) Erthyglau 1 i 3 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1966/2006 ar 21 Rhagfyr 2006 ar gofnodi ac adrodd yn electronig am weithgareddau pysgota ac ar ddulliau synhwyro o bel(**4**)); a

(ii) Pennod 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1077/2008 ar 3 Tachwedd 2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1966/2006 ar gofnodi ac adrodd yn electronig am weithgareddau pysgota ac ar ddulliau synhwyro o bell ac sy'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1566/2007(**5**);

(b) ar 1 Ionawr 2011 ac wedi hynny, y darpariaethau sy'n ymwneud â chofnodi a darlledu data gweithgareddau pysgota a osodir yn Adran 1 o Bennod 1 o Deitl 4 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009 ar 20 Tachwedd 2009 sy'n sefydlu system o reolaeth Gymunedol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r polisi pysgodfeydd cyffredin, ac sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 847/96, (EC) Rhif 2371/2002, (EC) Rhif 811/2004, (EC) Rhif 768/2005, (EC) Rhif 2115/2005, (EC) Rhif 2166/2005, (EC) Rhif 388/2006, (EC) Rhif 509/2007, (EC) Rhif 676/2007, (EC) Rhif 1098/2007, (EC) Rhif 1300/2008, (EC) Rhif 1342/2008 ac yn diddymu Rheoliadau (EEC) Rhif 2847/93, (EC) Rhif 1627/94 ac (EC) Rhif 1966/2006(**6**).

(2) Ystyr unrhyw rwymedigaeth ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi deunydd o dan y Cynllun hwn yw rhwymedigaeth i beri bod y deunydd hwnnw ar gael mewn modd a fydd yn sicrhau ei bod yn weddol debygol y bydd y rheini sy'n gymwys am grant yn ei weld.

(**4**) OJ Rhif L409, 30.12.2006, t. 1.
(**5**) OJ Rhif L295, 4.11.2008, t. 3.
(**6**) OJ Rhif L343, 22.12.2009, t. 1.